# Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Awst 2010



**Cyf: 419A2010**

Llun trwy garedigrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Arweiniwyd Tîm Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gan Alastair McQuaid (Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant) a Nick Selwyn (Cydgysylltydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Jane Holownia (Partner). Mae cydweithwyr o Grant Thornton UK LLP wedi cyfrannu at yr asesiad hwn.

**Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth dda a threfniadau partneriaeth cadarnhaol ac mae'n cymryd camau i sicrhau y caiff ei feddylfryd strategol ei drosi'n gamau gweithredu prydlon ac effeithiol mewn amgylchedd ariannol heriol.**


**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2032 0500**
**Ffacs: 029 2032 0600**
**Ffôn Testun: 029 2032 0660**
**E-bost: info@wao.gov.uk**
**Gwefan: www.wao.gov.uk**



Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.



# Cynnwys


Crynodeb 4

Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser 6

Mae arweinyddiaeth sefydlog y Cyngor wedi helpu i sicrhau y caiff dewisiadau polisi anodd eu rhoi ar waith ond nid yw'r meddylfryd strategol bob amser wedi arwain at y manteision arfaethedig i'r trigolion 6

Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai penderfyniadau anodd ac wedi gwneud cynnydd mewn meysydd anodd 6

Ceir heriau o ran diwallu anghenion y cymunedau lleol 7

Mae'r Cyngor yn newid sut y mae'n trefnu ei hun er mwyn darparu gwasanaethau mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol difrifol 7

Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella 9

Mae arweinyddiaeth a threfniadau partneriaeth y Cyngor yn gryfderau penodol ond nid yw agweddau eraill ar sut y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn trefnu yn cefnogi gwelliant yn gyson 9

Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth dda sy'n chwarae rhan gref yn y broses o gefnogi gwelliant 9

Mae ymrwymiad y Cyngor i weithio mewn partneriaeth yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol 11

Mae trefniadau llywodraethu wedi gwella ac yn datblygu er mwyn ateb heriau'r dyfodol 13

Mae polisi a strategaeth, rheoli risg a rheoli prosiect yn gwella ac mae'r Cyngor wedi nodi meysydd eraill i'w datblygu 14

Mae gan y Cyngor ffocws tymor canolig o ran y defnydd priodol o adnoddau a gaiff ei atgyfnerthu ymhellach pan fydd cynlluniau rheoli ariannol a rheoli asedau ar waith 17

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'n rheoli perfformiad nac yn cynllunio'r gweithlu'n gyson dda hyd yn hyn ac mae'n bwriadu mynd i'r afael â hyn 19

# Crynodeb

1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

- Asesiad Corfforaethol – sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – sy'n asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd.

3 Y nod yw cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob cyngor mewn dull safonol. Gyda'i gilydd bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, a elwir yn Adroddiad Gwella Blynyddol.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith ei Harchwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Corfforaethol.

5 Ym mis Mawrth 2010, nodwyd yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol, Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus. Mae effaith bosibl y gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd wedi'i hamlygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin 2010, dywedodd CLILC nad oedd modd dianc rhag y ffaith y byddai angen i bob rhan o'r sector cyhoeddus archwilio ei gwariant cyhoeddus a'r gwasanaethau a ddarperir - ni ellir datrys y diffyg drwy effeithlonrwydd yn unig.

6 Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r modd y'u cyflwynir, gan gynnwys opsiynau ar gyfer caffael mwy o wasanaethau yn hytrach na'u darparu a chydweithredu. Paratowyd yr asesiad corfforaethol yn y cyd-destun hwn.

7 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn:

‘A yw trefniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?’



8 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd lle mae trefniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant yn datblygu a, lle y bo angen, byddwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol a gaiff ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2010.

9 Gan mai asesiad corfforaethol rhagarweiniol yw hwn, mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl ac felly rydym wedi defnyddio ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes. Lle y bo'n briodol, caiff ein Hasesiad Corfforaethol nesaf yn 2011 ei lywio gan fwy o waith yn y meysydd hyn.

10 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod **gan y Cyngor arweinyddiaeth dda a threfniadau partneriaeth cadarnhaol ac mae'n cymryd camau i sicrhau y caiff ei feddylfryd strategol ei drosi'n gamau gweithredu prydlon ac effeithiol mewn amgylchedd ariannol heriol.**

11 Seiliwyd ein casgliad ar ein hasesiad o gynnydd y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i ategu gwelliant. Esbonnir y casgliadau hyn yn fanwl yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn y drefn honno. Canfuwyd y canlynol:

- mae arweinyddiaeth sefydlog y Cyngor wedi helpu i sicrhau y caiff dewisiadau polisi anodd eu rhoi ar waith ond nid yw'r meddylfryd strategol bob amser wedi arwain at y manteision arfaethedig i'r trigolion;

- mae arweinyddiaeth a threfniadau partneriaeth y Cyngor yn gryfderau penodol ond nid yw agweddau eraill ar sut y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn trefnu yn cefnogi gwelliant yn gyson.

## Meysydd i'w gwella

12 Mae'r asesiad wedi nodi meysydd lle y cynigiwn y dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau gweithredu.

| Arddangosyn 1: Meysydd i'w gwella |
|---|
| M1 Gwerthuso effeithiolrwydd rôl y Cyngor mewn partneriaethau. |
| M2 Ffurfioli'r broses cynllunio ariannol tymor canolig a chyhoeddi'r strategaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a rheoli asedau er mwyn cefnogi gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor. |
| M3 Gweithredu rhaglen sy'n ymgorffori rheoli perfformiad ym mhrosesau rheoli gweithredol yr holl wasanaethau. |
| M4 Rhoi hyfforddiant ar waith er mwyn cynorthwyo aelodau dibrofiad i gyflawni eu cylch gwaith yn effeithiol. |
| M5 Hyfforddi a chefnogi'r Pwyllgor Archwilio fel y gall gyflawni ei gylch gwaith yn fwy effeithiol o ran cyfrifoldebau statudol y Cyngor i sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod ei swyddogaethau'n gwella'n barhaus. |

# Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

## Mae arweinyddiaeth sefydlog y Cyngor wedi helpu i sicrhau y caiff dewisiadau polisi anodd eu rhoi ar waith ond nid yw'r meddylfryd strategol bob amser wedi arwain at y manteision arfaethedig i'r trigolion

### Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai penderfyniadau anodd ac wedi gwneud cynnydd mewn meysydd anodd

13 Mae gan y Cyngor 44 o gynghorwyr, a arweinir gan weinyddiaeth Lafur leiafrifol. Gwnaeth y newid o fwyafrif Lafur i weinyddiaeth leiafrifol yn 2008 greu heriau wrth i aelodau newydd eu hethol ddysgu am weinyddiaeth llywodraeth leol a sut i gydbwyso buddioldeb gwleidyddol â phrosesau gwneud penderfyniadau effeithiol. Er hynny, mae parhad yr arweinyddiaeth wleidyddol wedi helpu'r Cyngor i wneud rhai penderfyniadau anodd, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr sydd wedi bod yn ei swydd ers 2004. Mae wedi cyflwyno dull cydweithredol o weithio ar draws strwythurau cyfarwyddiaethau a gwasanaethau'r Cyngor.

14 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd anodd megis:

- cytuno ar raglen moderneiddio ysgolion er mwyn rhesymoli adeiladau ysgolion a lleihau lleoedd gwag;
- trosglwyddo stoc tai yn 2007-08 i Gymdeithas Dai Bron Afon er mwyn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012;
- cyflwyno arferion gwaith amgen ac atebion yn seiliedig ar dechnoleg er mwyn cefnogi gweithio hyblyg, yn gysylltiedig â strategaeth swyddfeydd arloesol; a
- rhesymoli strwythurau cyflog staff drwy weithredu statws sengl cyn cynghorau eraill.

15 Ar 18 Medi 2009 cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad archwilio diamod ac ym mis Rhagfyr 2009 cyhoeddodd Archwilydd Penodedig a Rheolwr Cydberthynas yr Archwilydd Cyffredinol eu Llythyr Blynyddol. Barn yr Archwilydd Penodedig oedd bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion cyflwyno adroddiadau ar welliant ariannol a gwelliant o ran perfformiad, ond ceir gwendidau o ran gwybodaeth am berfformiad a byddai rhai gwelliannau yn sicrhau gwerth gwell am arian. Barn y Rheolwr Cydberthynas oedd bod trefniadau llywodraethu, cynllunio corfforaethol strategol ac adfywio yn gadarn ond ceir gwendidau o ran rheoli asedau, ac roedd angen gwella rhai gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed.



## Ceir heriau o ran diwallu anghenion y cymunedau lleol

**16** Er bod poblogaeth Torfaen wedi bod yn gymharol ddigyfnewid, mae nifer y trigolion oedran pensiwn yn cynyddu ac mae nifer y trigolion o dan 16 oed yn lleihau.

**17** Mae dwy ward yn y fwrdeistref sirol sydd ymysg y 10 y cant o wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae un arall ymysg yr 20 y cant mwyaf difreintiedig, yn ôl meini prawf cyfredol. Mae dangosyddion amddifadedd eraill hefyd yn sylweddol yn y fwrdeistref, megis cyfraddau beichiogrwydd uchel ymhlith merched yn eu harddegau a lefelau cymwysterau isel ymysg y gweithlu.

**18** Yn 2008, roedd 66.1 y cant o'r trigolion o oedran gweithio mewn cyflogaeth sef y pedwerydd isaf yng Nghymru. Mae diweithdra yn cynyddu ar gyfradd uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau eraill yng Nghymru.

## Mae'r Cyngor yn newid sut y mae'n trefnu ei hun er mwyn darparu gwasanaethau mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol difrifol

**19** Dros y misoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn adolygu'r ffordd y mae'n trefnu ei hun ar lefel uwch ac wedi dechrau proses ailstrwythuro gynhwysfawr. Mae hyn yn adeiladu ar newidiadau ar lefel uwch reolwyr dros y pum mlynedd diwethaf, lle y nododd y Cyngor arbedion costau sylweddol. Byddwn yn gwneud gwaith manwl i ddilysu graddau'r arbedion cost a gynlluniwyd ac a gyflawnwyd, fel rhan o'n rhaglen archwilio ariannol ac asesu perfformiad barhaus.

**20** Adolygwyd a diweddarwyd strwythurau uwch reoli ym mis Mawrth 2010 a bellach bydd Dirprwy Brif Weithredwr a dau Brif Weithredwr Cynorthwyol yn atebol i'r Prif Weithredwr. Yn 2009-10 pennodd y Cyngor gyllideb refeniw net o £159 miliwn ac mae ganddo raglen gyfalaf o tua £40 miliwn ar gyfer 2010-11. Mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol a lluniodd ragolwg cyllidebol tair blynedd ar gyfer 2010-11 hyd 2012-13 ym mis Medi 2009 a nododd ar y pryd fod angen sicrhau arbedion o £29 miliwn er mwyn cynnal cyllideb fantoledig.

**21** Mae'r Cyngor wedi nodi bod angen iddo ddatblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig ffurfiol a strategaeth gysylltiedig ar gyfer y gweithlu er mwyn dangos sut y gall ateb yr heriau ariannol sylweddol y mae'n eu hwynebu dros y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd diwethaf mae wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar ymgorffori dull tymor canolig o ddyrannu adnoddau a bellach mae'n bwriadu datblygu cynllun ffurfiol yn ogystal â diweddaru'r Cynllun Corfforaethol. Hefyd, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar sicrhau effeithlonrwydd pellach fel rhan o brosiect corfforaethol.

**22** Yn y gorffennol, er bod strategaethau'r Cyngor yn nodi cyfeiriad clir ac yn seiliedig ar broses cynllunio gwasanaethau sefydledig, nid oeddent yn arwain yn gyson at gamau gweithredu a oedd yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn yn ei gynllunio strategol ar gyfer 2010-11.

23 Mae'r Cyngor ym mlwyddyn olaf ei Gynllun Corfforaethol, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2006, ac ar hyn o bryd mae wrthi'n datblygu un newydd a fydd yn mynd ar waith ym mis Ebrill 2011. Mae wedi datblygu Amcanion Gwella, fel sy'n ofynnol yn ôl y Mesur, drwy adolygu'r blaenoriaethau hynny sydd yn y Cynllun Corfforaethol presennol, wrth i'r cynllun newydd gael ei ddatblygu. Os bydd blaenoriaethau'n newid yn ystod y broses gynllunio, yna caiff yr Amcanion Gwella gwreiddiol eu diwygio. Mae'r Amcanion Gwella a nodwyd yn cynrychioli anghenion y dinasyddion ac yn deillio o ymgynghori ac ymgysylltu presennol.

24 Amcanion Gwella'r Cyngor yw:

- helpu pobl fregus i aros yn eu cartrefi;
- gwella'r ffordd y byddwn yn cyflwyno ein grantiau cyfleusterau i'r anabl;
- gwella mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg;
- gwneud mwy o ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau gwastraff;
- darparu cyfleoedd i bobl wella eu sgiliau ar gyfer cyflogaeth; a
- gwella gwasanaethau cynllunio.



# Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

## Mae arweinyddiaeth a threfniadau partneriaeth y Cyngor yn gryfderau penodol ond nid yw agweddau eraill ar sut y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn trefnu yn cefnogi gwelliant yn gyson

### Mae gan y Cyngor arweinyddiaeth dda sy'n chwarae rhan gref yn y broses o gefnogi gwelliant

#### Mae'r Cyngor yn cael budd o arweinyddiaeth gorfforaethol gref

**25** Parchir y Prif Weithredwr gan y rheini o fewn y sefydliad a'r rheini y tu allan iddo am ei harweinyddiaeth. Sefydlodd y 'Tîm Gwyrdd' o uwch swyddogion sy'n cefnogi ei rôl ac yn darparu cyfeiriad uwch reoli cryf, cyfunol ar gyfer y Cyngor.

**26** Mae uwch swyddogion hefyd yn gweithio'n dda gyda'r arweinwyr gwleidyddol. Mae Fforwm Datblygu Polisi (y Fforwm) y Cabinet ac uwch swyddogion yn gyfrwng effeithiol ar gyfer cydweithredu. Mae'n rhoi arwydd o ddatblygiadau polisi posibl yn y dyfodol i aelodau'r Cabinet ac yn eu galluogi i gynnal trafodaeth fanwl ynghylch materion perthnasol cyn y caiff penderfyniadau eu dwyn gerbron yr aelodau'n fwy ffurfiol. Ymysg enghreifftiau diweddar o'r Fforwm yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau mae'r polisi rhyddhad ardrethi yn ôl disgresiwn a'r strategaeth lety. Mae'r Cyngor hefyd wedi ceisio datblygu diwylliant gwelliant parhaus yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'r uwch reolwyr wedi canolbwyntio llawer o weithgarwch ar gyflawni hyn. Ymhlith yr enghreifftiau mae gwaith a wnaed i sefydlu 'edau aur' er mwyn cysoni gwaith swyddogion unigol yn well â'r broses o gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol a chreu'r Tîm Gwyrdd, sy'n canolbwyntio ar feithrin diwylliant sefydliadol o welliant parhaus drwy fod yn agored ac ymddiriedaeth.

#### Mae arweinyddiaeth wleidyddol glir o agenda strategol y Cyngor a chydnabyddiaeth o'r angen i ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy

**27** Arweinir y prosesau ar gyfer cynllunio corfforaethol a datblygu blaenoriaethau gwella gan aelodau â chefnogaeth dda gan swyddogion. Datblygodd swyddogion ac aelodau bum blaenoriaeth graidd ar y cyd mewn gweithdai a hwyluswyd gan Brifysgol Warwick. Llywiodd y blaenoriaethau hyn Gynllun Corfforaethol y Cyngor a darparwyd fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Sicrhaodd y broses fod gan yr aelodau berchnogaeth lawn o flaenoriaethau'r Cyngor ac maent yn deall eu cyfrifoldebau'n glir o ran sicrhau y cânt eu cyflawni.

**28** Yn y Cabinet mae cynghorwyr ag ystod amrywiol o sgiliau a phrofiad a defnyddir y rhain i wneud penderfyniadau priodol ar faterion cymhleth, er enghraifft cau ysgolion a chanolfannau hamdden. Rhoddir pob penderfyniad o'r fath gerbron seminar wythnosol lle gall partïon â diddordeb

fynegi eu barn a chodi unrhyw faterion neu bryderon. Mae'r dull hwn o weithredu yn sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau hyddysg, â sylwadau gan yr holl bartïon â diddordeb.

29 Mae angen i wasanaethau cyhoeddus ddod o hyd i ffyrdd o alluogi dinasyddion i leisio eu barn ar bethau sy'n bwysig iddynt, ac ar yr un pryd reoli disgwyliadau dinasyddion o ran yr hyn sy'n bosibl ag adnoddau cyfyngedig. Mae Arweinydd y Cyngor yn cydnabod bod angen ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd wrth benderfynu ar flaenoriaethau'r Cyngor. Mae rhai mentrau da wrthi'n cael eu rhoi ar waith er mwyn annog ymgysylltu â'r gymuned ond erys hwn yn faes allweddol ar gyfer ei ddatblygu ymhellach ac ni ddangoswyd ei lawn effaith hyd yn hyn.

30 Mae'r Cyngor wedi datblygu cynlluniau ar gyfer gwella prosesau ymgynghori â dinasyddion mewn cydweithrediad â dau awdurdod lleol arall ac asiantaethau partner, a gymeradwywyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Er enghraifft, defnyddiodd y Cyngor ddull gweithredu TGCh arloesol (*My Torfaen*) yn 2009-10 i ymgynghori ar arbedion golau stryd.

31 Mae'r Cyngor yn datblygu ei ddull o ymgysylltu â'r gymuned er mwyn sicrhau ei fod yn fwy penodol. Yn hytrach na chefnogi nifer fawr o ymgynghoriadau ad hoc penodol, mae'r Cyngor wrthi'n sefydlu Panel Dinasyddion ac yn parhau i chwilio am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer cymryd rhan ynddo. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda chwmni ymchwil ac ymgysylltu â dinasyddion arbenigol (ISWE) er mwyn datblygu adnodd ymgysylltu â dinasyddion ar-lein. Bydd hwn yn casglu barn dinasyddion ac yn eu triongli â syniadau staff a rhanddeiliaid eraill am ddarparu gwasanaethau.

### Gallai rhaglen hyfforddi arweinyddiaeth y Cyngor atgyfnerthu ansawdd arweinyddiaeth gorfforaethol a gwleidyddol ymhellach

32 Mae'r Cyngor yn awyddus i ddatblygu sgiliau aelodau ac mae wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd iddynt ddysgu mwy am fod yn gynghorydd effeithiol. Mae hyn yn galluogi cynghorwyr i gael profiad cynnar o'r ffordd y mae prosesau a systemau llywodraeth leol yn gweithio a gweld sut i weithio o fewn y system.

33 Yn ystod 2009-10, hyfforddwyd aelodau ym meysydd cynllunio, trwyddedu, Cod Ymddygiad Aelodau, ac amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Yn ystod 2010-11, caiff aelodau hyfforddiant pellach drwy ddull ariannu cydweithredol â chynghorau cyfagos yng Ngwent, a ariennir yn rhannol gan CLILC.

34 Mae'r Cyngor wedi datblygu rhaglen datblygu arweinyddiaeth ardal mewn partneriaeth sydd ar gael i gynghorwyr a swyddogion ym mhob rhan o'r Cyngor a fydd yn eu galluogi i ennill gradd Meistr mewn arweinyddiaeth. Mae'r Cyngor wedi ymestyn y cynnig hwn i'w sefydliadau partner yn yr heddlu, Llywodraeth y Cynulliad, ym maes iechyd ac yn y sector gwirfoddol. Mae trafodaethau â CLILC a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dangos cryn awydd i ddefnyddio'r model hwn ledled Cymru, os bydd y treial yn llwyddiannus.



## Mae ymrwymiad y Cyngor i weithio mewn partneriaeth yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol

**35** Mae'r Cyngor yn dangos ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth ar draws ystod o wasanaethau a swyddogaethau, a gwelir y Prif Weithredwr yn mabwysiadu dull arwain rhagweithiol mewn nifer o feysydd trawsbynciol anodd. Ceir tystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol ac arbedion costau yn sgîl rhai enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, er bod tystiolaeth glir bod rhai partneriaethau'n gweithio'n dda a bod y Cyngor yn rhoi'r trefniadau ar waith er mwyn cefnogi cydweithio effeithiol, nid yw bob amser yn bosibl dangos pa fanteision sydd wedi deillio o enghreifftiau eraill o weithio mewn partneriaeth i drigolion lleol. Mae angen rhagor o waith i wella'r broses o fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd partneriaethau.

**36** Mae'r Cyngor yn cymryd rhan weithredol yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl). Mae'r BGLl yn dal i ddatblygu ond mae'r partneriaid yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Mae Prif Weithredwyr y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn ogystal â Phrif Gwnstabl yr Heddlu yn mynd i gyfarfodydd yn rheolaidd. Mae'r Cyngor, gyda'i bartneriaid BGLl, wedi datblygu Fframwaith Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r fframwaith hwn yn darparu strwythur i wasanaethau cyhoeddus yn Nhorfaen ddatblygu dulliau cyffredin o gynllunio, ymchwilio ac ymgysylltu; gweithio mewn partneriaeth symlach; comisiynu ar y cyd a rheoli ariannol; fframwaith perfformiad cyffredin; ac adnoddau cyffredin ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y Cyngor yn ymrwymo i gytundebau canlyniadau â Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni canlyniadau allweddol a rennir â phartneriaid BGLl.

**37** Ar ôl i brosiect gwasanaethau a rennir de-ddwyrain Cymru ddod i ben, mae'r Cyngor yn ystyried ffyrdd eraill o gydweithredu ag awdurdodau a chyrff cyhoeddus cyfagos er mwyn nodi gallu ac adnoddau ar draws sefydliadau a sicrhau effeithlonrwydd mewn gwasanaethau mewnol. Yn ddiweddar, cytunodd y Cyngor â phartneriaid i sefydlu Canolfan Adnoddau a Rennir yn Victoria House ym Mlaenafon, â'r nod hirdymor o gynnwys sawl sefydliad yn y sector cyhoeddus o fewn agenda gydweithredu Cymru gyfan. Mae Heddlu Gwent yn cymryd rhan yn y prosiect hwn a rhagwelir arbedion posibl ar gyfer y partneriaid sy'n cymryd rhan yn deillio o rannu systemau TG a data.

**38** Hefyd, mae'r pump awdurdod lleol yng Ngwent ynghyd â Heddlu Gwent a Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan wedi sefydlu bwrdd rhaglen i arwain agenda effeithlonrwydd y rhanbarth ar fath o fodel 'total place'. Mae'r Prif Weithredwyr a'r Prif Gwnstabl eisoes wedi cyfarfod a chytuno i arwain saith ffrwd waith.

**39** Gweithiodd y Prif Weithredwr gyda Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Torfaen er mwyn mynd i'r afael ag achosion o ariannu gofal iechyd parhaus a chyda darparwyr gofal iechyd er mwyn mynd i'r afael â phroblemau o ran oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Llywiodd y Cyngor Brosiect Pobl Fregus Gwent mae cynghorau cyfagos a phartneriaid iechyd yn gweithio gyda'i gilydd â'r nod o gefnogi pobl sy'n agored i niwed i fyw'n annibynnol.

**40** Roedd gweithio mewn partneriaeth â'r sector iechyd yn her arbennig ar ôl i Fwrdd Iechyd Lleol Torfaen ddod i ben. Arweiniodd hyn at rywfaint o bryder fod ffurfio Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan newydd a mwy i faint, â'i gylch gwaith darparu gwasanaethau ehangach

mewn ardal ddaearyddol fwy, yn gwanhau'r cydberthnasau presennol a'r ffocws ar faterion lleol. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn, gwnaeth y Cyngor benodiad ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd o fis Ebrill 2010 er mwyn pennu blaenoriaethau iechyd yn Nhorfaen ac i ddatblygu trefniadau comisiynu a rheoli yn yr ardal. Gall hyn wella cyflymdra ac effaith cydweithio. Fodd bynnag, bydd rôl estynedig deiliad y swydd yn golygu y bydd yn rhaid i aelodau o staff yn y gwasanaethau cymdeithasol gyflawni rhai o'i chyfrifoldebau blaenorol mewn adran sydd eisoes o dan bwysau.

**41** Mae'r Cyngor yn parhau ei raglen moderneiddio ysgolion ac mae wedi sicrhau adnoddau cyfalaf o tua £40 miliwn o wahanol ffrydiau ariannu. Ymhlith y prosiectau mae:

- Ysgol Arbennig Crownbridge, a fydd â sawl safle os bydd y cyllid i gyd ar gael;
- cau dwy ysgol er mwyn darparu ysgol newydd â lle i 420 yn Hollybush; a
- chau tair ysgol arall ym Mlaenafon er mwyn sefydlu campws newydd a fydd yn cynnwys ystod o gyfleusterau iechyd, hamdden a chymunedol.

**42** Cyn ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996-97 roedd ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg Ysgol Gyfun Gwynllyw, sydd o fewn ffiniau presennol y Cyngor, yn darparu addysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer holl ardal Gwent. Roedd partneriaid yn rhagdybio mai'r Cyngor a oedd yn gyfrifol am gael gafael ar ddyraniadau cyfalaf a grant gwella adeiladau ysgolion. Fodd bynnag, o ystyried natur ranbarthol y ddarpariaeth yn Ysgol Gyfun Gwynllyw, ac ystod y gofynion o ran datblygu ysgolion y mae angen mynd i'r afael â hwy, mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn briodol ariannu'r cyfleuster hwn ar y cyd. Dros y 18 mis diwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda chynghorau cyfagos i gynllunio'r ddarpariaeth er mwyn ateb y galw presennol a'r galw yn y dyfodol mewn ffordd fwy effeithlon a chost-effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys ymestyn ac adnewyddu'r ddarpariaeth bresennol.

**43** Mae pob trefniant gweithio ar y cyd sy'n cwmpasu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Plant a Phobl Ifanc, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Chynllunio at Argyfwng yn sicrhau cynnydd yn erbyn agendâu penodol. Ymhlith enghreifftiau eraill o gydweithredu â chynghorau cyfagos sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor i bartneriaethau mae:

- datblygiadau arloesol ym meysydd Addysg a TGCh i gyflwyno rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif, sy'n cynnwys canolfan adnoddau a rennir;
- gweithio gyda phum sir arall yng Nghymru ar brosiect newydd gwerth £19 miliwn i helpu pobl ddi-waith i gael gwaith drwy'r fenter Pontydd i Waith; a
- sicrhau £7 miliwn o arian Llywodraeth y Cynulliad tuag at y datblygiad integredig gwerth £15 miliwn i ddarparu ystod eang o wasanaethau cymunedol ar gyfer trigolion Blaenafon ac ardaloedd cyfagos Gogledd Torfaen a Blaenau'r Cymoedd.

**44** Mae'r Cyngor hefyd yn cymryd rhan mewn consortiwm rhanbarthol o awdurdodau lleol sy'n datblygu opsiynau ar gyfer ymdrin â gwastraff. Er bod y Cyngor yn perfformio'n dda iawn o ran gwastraff ac ailgylchu, mae cynnydd gyda phartneriaid ar ddatblygu atebion rhanbarthol wedi bod yn araf.



45 Er bod y Cyngor yn dangos brwdfrydedd amlwg dros bartneriaethau, mae angen iddo sicrhau eu bod yn cefnogi blaenoriaethau a chyfeiriad y Cyngor ac y caiff eu perfformiad ei werthuso'n gywir o ran cyflawni canlyniadau, gwella gallu ac adnoddau a chyflawni effeithlonrwydd hefyd. Mae'r Cyngor yn ystyried bod cydweithredu yn allweddol i gyflawni effeithlonrwydd o'r defnydd ar y cyd o gyllidebau/adnoddau ochr yn ochr â threfniadau rheoli ariannol llym a threfniadau rheoli perfformiad cadarn. Mae'r Cyngor yn datblygu rhaglen newid trawsnewidiol er mwyn sicrhau bod ganddo'r gallu, ynghyd â'i bartneriaid, i ddarparu gwasanaethau i safon ddiffiniedig y mae'r cyhoedd am ei chael.

## Mae trefniadau llywodraethu wedi gwella ac yn datblygu er mwyn ateb heriau'r dyfodol

46 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi diffinio ystyr llywodraethu da fel a ganlyn: 'Sicrhau bod y sefydliad yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, ar gyfer y bobl gywir, mewn modd agored, gonest, cynhwysol ac amserol.' Mae craffu effeithiol yn chwarae rhan allweddol mewn llywodraethu da drwy herio penderfyniadau ac archwilio perfformiad. Mae gan aelodau'r cabinet ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd y swyddogaeth graffu i lywodraethu da oherwydd bu llawer ohonynt yn gadeiryddion pwyllgorau craffu gynt.

47 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i sicrhau bod y swyddogaeth graffu yn canolbwyntio ar feysydd â blaenoriaeth. Mae'r broses o bennu'r agenda yn effeithiol a'r aelodau sy'n dyfeisio'r rhaglen gwaith craffu gan ddefnyddio system sgorio arloesol a gwrthrychol. Mae cysylltiad agos rhwng cylch gwaith y pwyllgorau craffu ac amcanion y cynllun corfforaethol yn hytrach na ffiniau adrannol traddodiadol. Mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu'r trefniadau craffu trawsbynciol hyn ymhellach drwy gael asiantaethau cyhoeddus eraill i gymryd rhan yn y broses graffu, a hynny'n seiliedig ar flaenoriaethau a themâu cymunedol.

48 Mae'r broses trosolwg a chraffu yn datblygu a cheir rhywfaint o dystiolaeth bod y swyddogaeth graffu'n gweithredu'n effeithiol ond mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn wynebu nifer o heriau er mwyn iddo gyflawni llywodraethu a chraffu cryf yn gyson yn ei holl weithgareddau. Er bod lefel y cymorth gweinyddol ar gyfer craffu yn ddigonol, mae angen lefel uchel o gymorth ar y swyddogaeth gan uwch swyddogion o hyd. Nid yw'n glir a yw'r cymorth lefel uchel sylweddol hwn yn creu'r budd a ddymunir o ran safon y craffu, efallai oherwydd bod rhai o aelodau'r pwyllgor yn gymharol ddibrofiad. Mae angen i bwyllgorau craffu sicrhau bod y cydbwysedd cywir ganddynt rhwng aelodau profiadol ac aelodau newydd er mwyn iddynt fod yn gwbl effeithiol. Ffactor arall sy'n effeithio ar effeithiolrwydd craffu yw presenoldeb gwael. Er mwyn sicrhau trafodaethau a herio effeithiol, dylai cynghorwyr sicrhau eu bod yn gallu mynd i gyfarfodydd.

49 Mae arwyddion bod y cymhlethdod gwleidyddol mwy cytbwys, yn deillio o weinyddiaeth leiafrifol, yn arwain at rai anawsterau yn y broses Graffu o ran herio adeiladol. Mae rhai carfanau o'r farn bod dyraniad presennol cadeiryddion y pwyllgorau craffu yn ffactor sy'n cyfrannu at hyn ac mae'n destun ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar wahân.

50 Pwyllgor Archwilio'r Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb am sicrhau bod trefniadau ar gyfer llywodraethu da ar waith a'u bod yn gweithredu'n effeithiol. Gallai newidiadau o ran cynllunio rheoli risg arwain at y 'Pwyllgor Archwilio' yn newid i fod y 'Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg'.

51 Hyd yma, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi canolbwyntio'n bennaf ar lywodraethu a rheolaethau cyfrifyddu ariannol. Fodd bynnag, mae angen iddo gyflawni ei gylch gwaith ehangach o ran cyfrifoldebau statudol y Cyngor am roi trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod ei swyddogaethau'n gwella'n barhaus. Bydd hyn yn cynnwys mwy o drosolwg o lywodraethu a rheolaethau anariannol er mwyn sicrhau y gellir craffu ar flaenoriaethau, amcanion gwella, prosiectau, risgiau a pherfformiad y Cyngor yn briodol a'u herio a'u gwerthuso'n briodol.

52 Dylid gwella lefel y wybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau ei bod yn cael sicrwydd cadarnhaol yn ogystal â chael gwybod am wendidau. Dylid gwella lefel y wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn y Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwyir er mwyn cynnwys asesiadau risg, lefel bresennol sicrwydd, a mathau o adolygiad. Gallai hyn fod yn sail ar gyfer adolygu ac ymgysylltu â'r Pwyllgor Archwilio.

53 Dylai'r Cyngor sicrhau bod cynghorwyr ar y Pwyllgor Archwilio yn cael eu hyfforddi'n a'u cefnogi'n briodol i gyflawni'r dyletswyddau ehangach hyn. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn gwerthfawrogi bod lle i'r Pwyllgor wella ei ddealltwriaeth o'i rolau mewn perthynas â phwyllgorau a swyddogaethau eraill, ac mae'n awyddus iddo ddatblygu a gwella.

54 O 2010-11 bydd gan y Dirprwy Brif Weithredwr gyfrifoldeb am lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn natganiadau ariannol blynyddol y Cyngor yn lle'r Datganiad am Reolaeth Fewnol. Un o ofynion sylfaenol y Datganiad Llywodraethu yw Cod Llywodraethu, sy'n nodi egwyddorion a threfniadau llywodraethu'r awdurdod. Dylai'r Pwyllgor Archwilio gael sicrwydd bod y Cod ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol.

## Mae polisi a strategaeth, rheoli risg a rheoli prosiect yn gwella ac mae'r Cyngor wedi nodi meysydd eraill i'w datblygu

### Mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n amlygu ac yn rheoli risgiau

55 Cymeradwywyd Polisi Rheoli Risg diwygiedig a Strategaeth Rheoli Risg newydd yn ffurfiol yn 2009-10. Rhwng mis Mawrth 2009 a mis Chwefror 2010 gwnaed nifer o welliannau, gan gynnwys cyflwyno matrics sgorio er mwyn meintioli risg yn seiliedig ar debygolrwydd ac effaith, sy'n darparu dull gweithredu mwy cyson. Er mwyn sicrhau bod pob maes gwasanaeth yn nodi'n gywir unrhyw risgiau y gallai'r Cyngor eu hwynebu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, cyhoeddwyd canllawiau newydd sy'n gofyn i bob Prif Swyddog atodi ei risgiau arfaethedig i weithgareddau a amlygir yn ei Gynlluniau Gwella Gwasanaethau a'u cysylltu â chamau gweithredu lliniarol er mwyn mynd i'r afael â'r risg yng nghynlluniau tîm ei feysydd gwasanaeth. Bydd pob maes gwasanaeth yn cynnal cyfarfod bob chwe mis er mwyn ystyried gwelliannau a risgiau o ran gwasanaethau, a chynhaliwyd y cyntaf o'r rhain ym mis Mai 2010. Caiff cysylltiadau eu gwneud â phroses y gyllideb o fis Medi 2010.



56 Mae gweithdrefnau rheoli risg a lliniaru risg y Cyngor yn gwella. Mae'r gofrestr risg yn gynhwysfawr, gan gwmpasu blaenoriaethau corfforaethol ynghyd â meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth a swyddogaethau ategol, ond ar hyn o bryd rhestrir gormod o risgiau ar y gofrestr, gan ei gwneud yn anodd monitro effaith y mesurau lliniaru. Mae angen i'r Cyngor bellach adeiladu ar y matrics sgorio newydd: mae angen iddo sicrhau y caiff y gwaith o reoli risgiau gwasanaeth ei gyflawni gan y gwasanaethau fel gweithgarwch rheoli bob dydd a'i fod yn cynyddu ffocws y gofrestr risg gorfforaethol ar y risgiau strategol i gyflawni blaenoriaethau. Yn y sefyllfa economaidd bresennol, mae angen iddo ystyried hefyd effaith newidiadau mewn adnoddau a allai arwain at leihau neu atal gwasanaethau, yn ogystal ag effaith ymdopi â phwysau gwasanaethau na chânt eu hariannu mewn cyllidebau ar gynaliadwyedd gwasanaethau.

57 Mae'r Cyngor yn ystyried risgiau i barhad ei wasanaethau a'i swyddogaethau. Mae'r cynllun argyfwng corfforaethol yn drefnus ac wedi'i ysgrifennu'n dda. Mae cynllun busnes mwyaf diweddar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ar gyfer 2010-2013 (dyddiedig Chwefror 2010) yn cynnwys tystiolaeth glir bod hon yn fwy na dogfen statudol. Cynhelir ymarferion rheolaidd i brofi cynlluniau.

**Mae meddylfryd strategol lefel uchel y Cyngor yn dda ond mae wedi cael trafferth i drosi hyn yn gyson yn gamau gweithredu cadarn**

58 Mae gan y Cyngor drefniadau da ar gyfer datblygu ei gyfeiriad strategol lefel uchel, ac mae gwleidyddion a phartneriaid yn cyfranogi'n llawn. Cymeradwywyd y Cynllun Corfforaethol presennol gan y Cyngor ar 24 Hydref 2006 ac mae yn ei flwyddyn olaf, mae un newydd wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'n greiddiol i fframwaith polisi'r Cyngor, yn sail i weledigaeth a gwerthoedd y Cyngor ac yn ganolog i Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor. Mae datganiadau canlyniadau yn y Cynllun yn helpu i egluro sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cyfrannu at wella ansawdd bywyd a lles pobl Torfaen. Mae'r Cyngor yn cydnabod na welir gwelliannau sylweddol mewn unrhyw flwyddyn unigol, ond dros amser y bydd gwaith y Cyngor a'i sefydliadau partner yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau.

59 Datblygwyd fframwaith cynllunio gwasanaethau newydd er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cysylltiadau rhwng gwaith y BGLl, y Cynllun Corfforaethol, cynlluniau meysydd gwasanaeth, cynlluniau timau a chynlluniau gwaith unigol. Bydd y cysylltiadau hyn yn ail-bwysleisio'r 'edau aur' ym mhob rhan o'r Cyngor a fydd yn galluogi aelodau o staff i weld pwysigrwydd eu gwaith a sut y mae'n cyfrannu at wella bywydau dinasyddion.

60 Mae'n ofynnol i bob maes gwasanaeth yn y Cyngor lunio Cynllun Gwella Gwasanaethau erbyn 1 Ebrill bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys datganiadau gweithgarwch cyffredinol sy'n amlygu'r gweithgareddau y mae'r meysydd gwasanaeth yn bwriadu eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ddilynol. Cynlluniwyd y Cynlluniau Gwella Gwasanaethau i nodi'r gweithgareddau lefel uchel a fydd yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir ym mhob rhan o'r Cyngor ac i egluro sut y mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. Nid oes esboniadau manwl o gamau gweithredu unigol ynddynt. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir i ba raddau y caiff y broses o gyflawni amcanion gwella'r Cyngor ei monitro drwy ei system rheoli prosiect sefydledig.

61 Yn y gorffennol, er bod blaenoriaethau corfforaethol ar y cyfan yn cael eu hadlewyrchu'n glir mewn cynlluniau gwasanaeth, roedd anghysondebau wrth gyflawni a monitro canlyniadau yn golygu na chyflawnwyd blaenoriaethau bob amser. Cafodd y Cyngor anhawster i sicrhau bod 'edau aur' ei nodau strategol yn cael ei pherchnogi a'i chyflawni'n gyson mewn gwasanaethau. Ar gyfer 2010-11 mae'r Cyngor wedi mireinio ei broses cynllunio gwelliant. Caiff pob Cynllun Gwella Gwasanaethau ei ategu gan gyfres o Gynlluniau Tîm Unigol. Mae gwybodaeth fanwl yn y cynlluniau hyn sy'n ymwneud â chamau gweithredu pob tîm ac maent yn gysylltiedig â chynlluniau gwaith unigol swyddogion.

62 Defnyddir fformat safonol ar gyfer pob Cynllun Gwella Gwasanaethau yn y Cyngor bellach. Mae hyn yn golygu bod modd meithrin cysylltiadau rhwng pob maes gwasanaeth ac felly mae'n bosibl gweld sut y caiff adnoddau'r Cyngor (pobl, amser ac arian) eu dyrannu er mwyn cyflawni canlyniadau dymunol y Cynllun Corfforaethol. Mae hefyd yn gwella cyfleoedd ar gyfer gweithio cydgysylltiedig ac effeithlonrwydd drwy ddangos lle y mae mwy nag un maes gwasanaeth yn cyfrannu at gyflawni canlyniad unigol. Unwaith y cytunwyd ar yr holl Gynlluniau Gwella Gwasanaethau, caiff budd gweithgareddau a wnaed a chamau gweithredu a gymerwyd ei fonitro'n barhaus drwy gydol y flwyddyn gan ddefnyddio cyfres o fesurau perfformiad y cytunwyd arnynt. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i sicrhau y caiff ei ddull o ymdrin â chynaliadwyedd, cydraddoldebau ac adfywio ei gysylltu'n gliriach â'r Cynlluniau Gwella Gwasanaethau a'r Cynllun Corfforaethol.

## Mae trefniadau rheoli rhaglen a phrosiect y Cyngor yn gwella

63 Caiff y prosesau rheoli Rhaglen a Phrosiect eu monitro bellach drwy'r broses cynllunio corfforaethol a phennu amcanion, a gefnogir gan drosolwg rheoli, a'u cyflawni drwy gynlluniau tîm a chynlluniau unigol. Caiff hyn ei fireinio ymhellach yn y dyfodol drwy'r gwaith arfaethedig o integreiddio â system Ffynnon a chysylltu â'r gofrestr risg.

64 Mae Bwrdd Adolygu'r Rhaglen Gyfalaf yn fforwm defnyddiol ar gyfer cael y manylion diweddaraf am holl brosiectau cyfalaf mawr y Cyngor ac mae'n tynnu sylw at unrhyw risgiau ariannol neu risgiau eraill sydd gan y cynlluniau. Mae'r cylch gorchwyl yn newid yn 2010, a chaiff mwy o bwyslais penodol ei roi ar atebolrwydd prosiectau mawr a swyddogion prosiect mewn cyfarfodydd, ynghyd â mwy o bwyslais cyffredinol ar ddatblygu strategaethau cyfalaf sy'n edrych i'r dyfodol.

65 Canfu ein hadolygiad diweddar o brosesau rheoli asedau nad oedd gan y Cyngor system na fframwaith rheoli prosiect cyson ar waith y cytunwyd arni. Er bod rhai aelodau o staff wedi cael hyfforddiant PRINCE II (Prosiectau mewn Amgylcheddau wedi'u Rheoli), roedd y dull o weithredu ar y pryd yn llac ac yn seiliedig ar brofiad yr unigolyn o ddatblygu a rhedeg prosiectau. Roedd y Cyngor yn bwriadu datblygu system feddalwedd rheoli prosiect bwrpasol i gefnogi'r gwaith o reoli prosiectau mwy (£1 miliwn neu fwy).



## Mae gan y Cyngor ffocws tymor canolig o ran y defnydd priodol o adnoddau a gaiff ei atgyfnerthu ymhellach pan fydd cynlluniau rheoli ariannol a rheoli asedau ar waith

### Mae'r Cyngor wedi nodi'r pwysau ariannol y bydd yn eu hwynebu yn y dyfodol

**66** Mae gan y Cyngor hanes da o weithredu o fewn ei gyllideb refeniw, yn seiliedig ar gylch misol o fonitro'r gyllideb a chyflwyno adroddiadau chwarterol ar wariant i'r Cabinet. Wrth ddatblygu'r gyllideb ar gyfer 2009-10, nododd y Cyngor ddiffyg rhwng £1.1 miliwn a £3 miliwn yn y gyllideb. Gofynnwyd i bob gwasanaeth (heblaw am elfennau darparu gwasanaethau ysgolion a gofal cymdeithasol a thai) nodi opsiynau ar gyfer arbed un, tri a phump y cant yn eu cyllidebau y gellir eu rheoli. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod efallai y bydd angen gwneud arbedion llawer mwy er mwyn rheoli'r gostyngiadau posibl mewn cyllid.

**67** Ymysg y paratoadau cynnar a wnaed ar gyfer gosod cyllideb 2010-11 cafodd yr aelodau y senarios gorau, posibl, gwaethaf a mwyaf tebygol dros y tair blynedd nesaf, ynghyd â chrynodeb o bwysau o ran costau yn gysylltiedig â chwyddiant, materion cyllideb o 2009-10 a chynnydd yn y galw, sef cyfanswm o £29 miliwn ar gyfer y tair blynedd. Mae ffrydiau gwaith wrthi'n cael eu datblygu er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.

**68** Cadarnhaodd seminar ar y gyllideb ym mis Medi 2009 bwysau o £29 miliwn o ran costau. Gwnaeth hefyd grynhoi negeseuon allweddol o seminar CLILC a nododd ei bod yn bosibl y bydd angen gwneud arbedion rhwng 20 a 30 y cant o ran costau yn y ddwy i dair blynedd nesaf. Cyflwynwyd meysydd ymateb posibl i aelodau o ran lleihau costau gweithredu 30 y cant. Roedd yr opsiynau hyn yn cynnwys enillion cyflym, gwelliant penodol, trawsnewid Cyngor cyfan, trawsnewid ar draws y sector cyhoeddus a blaenoriaethu/rhesymoli gwasanaethau.

**69** Mae'r Cyngor yn wynebu heriau mawr i wneud arbedion effeithlonrwydd, ac mae'n datblygu ei agenda drawsnewidiol drwy ystyried newidiadau mewn polisïau. Er enghraifft, cludiant o'r cartref i'r ysgol, adolygu systemau a ffyrdd o gydweithredu. Caiff hyn yn ei adlewyrchu yn y gyllideb o £1 filiwn a neilltuwyd, yn 2010-11, i gefnogi mentrau trawsnewid.

**70** Mae ymarferion, megis y rhain, wedi helpu i amlygu graddfa bosibl y toriadau ariannol a'u heffaith ar y Cyngor, sy'n dechrau llywio penderfyniadau o ran adnoddau, gan gynnwys penderfyniadau cyllideb 2010-11. Mae wedi cyfrannu'n sylweddol at y ffordd y mae'r Cyngor bellach yn gwneud penderfyniadau ar adnoddau yn seiliedig ar ddull gweithredu tymor canolig yn hytrach na byrdymor.

**71** Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor strategaeth ariannol tymor canolig ffurfiol sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn cau'r bwlch ariannol ac sy'n darparu fframwaith ac amserlen ar gyfer penderfyniadau allweddol. Mae hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn seiliedig ar amserlen glir sy'n rhedeg ar y cyd â'r broses o

ddiweddaru'r Cynllun Corfforaethol. Bydd angen i'r cynllun ariannol tymor canolig gael ei ategu gan dybiaethau clir er mwyn bod yn sail i ragolygon a dadansoddiad o effaith newidiadau i dybiaethau ar y strategaeth a gaiff eu rheoli o ran risg.

72 Datblygwyd Strategaeth Gaffael ar gyfer 2007-2010, a chaiff ei hadolygu a'i hadnewyddu ar gyfer 2010-2013. Mae'r Cyngor wedi datblygu partneriaethau a chydweithredu yn llwyddiannus ar gyfer caffael. Mae partneriaethau'n bodoli gyda Heddlu Gwent a chynghorau eraill ac mae'r Cyngor yn rhan o Gonsortiwm Prynu Cymru, fframwaith Buying Solutions, fframwaith Gwerth Cymru ac mae wedi cofrestru â phorth e-fasnachu Cyfnewid Cymru. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen datblygiadau pellach o ran caffael, a bod angen iddo gadarnhau lle caffael yn y Cyngor a sut y mae'n cysylltu ag amcanion gwella'r holl wasanaethau.

73 Mae'r Cyngor wedi gwella ei brosesau ar gyfer cael gafael ar arian allanol. Mae wedi datblygu o ddull ad hoc o weithredu prosiectau a chael arian grantiau, gyda gwasanaethau unigol yn gwneud cais heb ymgynghori cyffredinol, i 'gronfa ddata Cronfa Allanol' ganolog y gellir ei rheoli'n gorfforaethol. Ategir hyn gan brotocol allanol arian grantiau.

74 Ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo ystyried ffyrdd o wella ei drefniadau contractio er mwyn sicrhau ei fod yn cael gwerth am arian ar y grantiau unigol y mae'n eu darparu.

### Mae gan y Cyngor ddull cadarn o reoli asedau addysg ond mae angen iddo ffurfioli ei ddull o reoli tir ac adeiladau eraill

75 Er bod gan y Cyngor ddealltwriaeth o'i sail asedau, a'i fod yn rheoli asedau strategol yn dda ym maes addysg, mae angen gwella ei strategaeth rheoli tir ac adeiladau nad ydynt ym maes addysg ac mae angen iddi fod yn fwy cyson. Mae angen datblygu trefniadau rheoli tir ac adeiladau'r Cyngor ymhellach a'u cymhwyso'n gyson i gefnogi gwelliannau gwirioneddol o ran gwerth am arian, effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau. Nid oes gan y Cyngor drefniadau rheoli perfformiad cadarn er mwyn llywio neu gyflawni Strategaeth Tir ac Adeiladau Gorfforaethol. O ganlyniad i hyn, ni all y Cyngor ddangos bod ei broses strategol o reoli tir ac adeiladau, na'i broses weithredol o reoli tir ac adeiladau yn rhoi gwerth am arian.

76 Mae anghenion swyddfeydd y dyfodol yn cael eu diwallu drwy ystyried cysyniadau megis 'gweithio ystwyth', ymysg pethau eraill. Cytunodd y Cyngor yn ddiweddar ar gynllun swyddfeydd interim er mwyn cynorthwyo'r broses o symud o Neuadd y Sir. Gwnaed hyn drwy gymorth partneriaeth Heddlu Gwent. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes ganddo gynllun rheoli asedau ffurfiol na chynllun ariannol tymor canolig ond mae ganddo drefniadau ar waith i adeiladu ar y dull gweithredu tymor canolig y gwelir tystiolaeth ohono eisoes.



## Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'n rheoli perfformiad nac yn cynllunio'r gweithlu'n gyson dda hyd yn hyn ac mae'n bwriadu mynd i'r afael â hyn

### Er bod rhai datblygiadau gweithredol cadarnhaol wedi'u gweld o ran rheoli pobl, ceir rhai gwendidau strategol

77 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da ar nifer o faterion yn ymwneud â rheoli pobl ond mae diffyg gwaith strategol i gynllunio'r gweithlu yn broblem, yn enwedig yng ngoleuni pwysau ariannol a nodwyd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi datblygu 'cynllun pobl' drafft ac mae wrthi'n rhoi trefniadau ar waith i ddatblygu cynllun gweithlu Adnoddau Dynol. Mae'r Cyngor wedi gweithredu statws sengl a chyflog cyfartal cyn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ac mae'n datblygu agweddau eraill ar reoli pobl gan gynnwys ailstrwythuro'i drefniadaeth fewnol, datblygu ffyrdd amgen a mwy hyblyg o weithio a hefyd yn cysylltu arfarniadau unigol yn gliriach â'r cynllun corfforaethol.

78 Mae'r Cyngor wedi datblygu dulliau eraill, mwy hyblyg o weithio dros nifer o flynyddoedd. Cafodd syniadau eu llywio gan dîm prosiect traws-sefydliadol a oedd yn goruchwylio'r broses o ddatblygu nifer o astudiaethau peilot ac, yn fwy diweddar, cyflwynodd ei brosiect cyntaf ar raddfa fawr yn llwyddiannus, yr oedd tua 70 aelod o staff yn ymwneud ag ef. Disgwylir y bydd yr holl sefydliad yn dechrau'r broses o symud tuag at ffyrdd newydd, mwy hyblyg o weithio ac yn benodol y gymhareb saith desg: deg swyddog.

79 Diwygiwyd polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol i adlewyrchu'r newidiadau a ddaeth yn sgîl trosglwyddo staff i Gymdeithas Dai Bron Afon, yn ogystal â'r ailstrwythuro diweddar a gweithredu'r statws sengl. Datblygodd y Cyngor ei 'Gynllun Pobl' fel ei ddogfen Adnoddau Dynol strategol. Mae'r Cynllun Pobl yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor o fod yn gefnogol, yn deg ac yn effeithiol. Mae'n gynllun seiliedig ar ganlyniadau. Dengys y cynllun ganlyniadau, gweithgareddau, swyddogion cyfrifol a sut y maent yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor. Er bod y cynllun wedi bod drwy'r broses gymeradwyo ffurfiol, bydd y Prif Swyddogion yn ei ystyried ymhellach mewn diwrnod cwrdd i ffwrdd yn 2010. Bydd angen i'r cynllun adlewyrchu'r newidiadau trawsnewidiol a ragwelir dros y blynyddoedd nesaf.

80 Disodlodd 'Worksmart' broses y Cyfweliad Cyflawniad a Datblygiad o ganlyniad i adroddiad diweddar Buddsoddwyr mewn Pobl ac mae'n ceisio sicrhau bod amcanion swyddogion unigol yn gysylltiedig â'r Cynllun Corfforaethol. Yn yr un modd caiff Fframwaith Asesu Perfformiad ei ddatblygu a'i weithredu ym mhob rhan o'r Cyngor dros amser.

81 Nid yw'r Cyngor wedi datblygu strategaeth gweithlu lawn hyd yma. Caiff nifer o raglenni gwaith a mentrau mawr effaith ar argaeledd a natur y sgiliau y bydd eu hangen ar y Cyngor, gan gynnwys moderneiddio ac ailwampio gwasanaethau. Cefnogir hyn gan weithio mwy hyblyg a mwy o gydweithio mewn partneriaeth. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o arwain at ormod o sgiliau mewn rhai meysydd a phrinder sgiliau mewn eraill. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu ei weledigaeth o ran maint a ffurf y gwasanaethau a ddarperir yn y

dyfodol er mwyn rheoli unrhyw fwlch rhwng ei allu a'i adnoddau staffio presennol a'i anghenion yn y dyfodol.

**Mae rheoli perfformiad y Cyngor yn wynebu problemau o ran ansawdd data a phroblemau diwylliannol sy'n rhwystro'r defnydd effeithiol o wybodaeth am berfformiad**

82 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio strategol a chynllunio gwasanaethau da ond ceir gwendidau mewn trefniadau rheoli perfformiad i gefnogi proses monitro, cyflwyno adroddiadau a gwerthuso. Ar hyn o bryd, nid oes cyfres gynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad i fesur y gwaith o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol yn effeithiol. Mae Cynlluniau Gwella Gwasanaethau yn mynd i'r afael â hyn a cheir arwyddion cynnar bod gwybodaeth well yn cael ei chynhyrchu, ond mae angen datblygu'r rhain ymhellach ynghyd â chysyniad yr 'edau aur'.

83 Er bod ymrwymiad ar lefel uchel, nid yw diwylliant monitro perfformiad wedi'i sefydlu'n llawn yn y Cyngor ar bob lefel eto. Cafwyd gwendidau sylweddol o ran casglu a dilysu gwybodaeth am berfformiad yn 2008-09. Nodwyd problemau o ran dibynadwyedd data'r Cyngor ar gyfer 17 o'r 27 o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol a brofwyd yn fanwl, sef bron draean ohonynt.

84 Mae problemau o ran ansawdd data yn codi amheuaeth ynghylch rhai o'r gwelliannau ymddangosiadol y mae'r Cyngor wedi'u cyflawni, er enghraifft o ran cyrhaeddiad addysgol. Mae adolygiad archwilio mewnol o ansawdd data wedi arwain at well dealltwriaeth o ffynonellau'r problemau. Yn rhannol, mae'r rhain yn codi am fod trefniadau presennol ar gyfer mesur perfformiad a phrosesau casglu a chyflwyno adroddiadau ar wybodaeth am reoli perfformiad yn amrywio yn ôl y maes gwasanaeth ac yn cynnwys defnyddio sawl system wahanol.

85 Mae angen gwelliannau i'r broses rheoli perfformiad er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion gwella ac ystod o welliannau eraill, y bydd llawer ohonynt yn dibynnu ar ddealltwriaeth o ddangosyddion perfformiad lleol yn hytrach na rhai cenedlaethol. Mae'r Cyngor yn datblygu ei drefniadau cyflwyno adroddiadau er mwyn mesur 'cost fesul budd' yn hytrach na 'chost fesul uned'. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o gymharu gweithgareddau gwahanol a'u priod gyfraniad at gyflawni'r amcanion corfforaethol, yn hytrach na chost fesul uned sy'n golygu y gellir cymharu â gweithgareddau tebyg yn unig.

86 Pe bai'r Cyngor yn cyflwyno system rheoli perfformiad Cymru gyfan, Ffynnon, byddai'n sicrhau mwy o gywirdeb a chysondeb yn y modd y caiff gwybodaeth am berfformiad ei chasglu, ei choladu a'i chyflwyno. Mae angen iddo hefyd gefnogi newid mewn diwylliant fel bod y system rheoli perfformiad yn cefnogi gwaith rheoli perfformiad gweithredol yn ogystal â darparu gwybodaeth er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno adroddiadau.

